Eisteddfod Cyd – Enwadol Pontargothi a'r Cylch

Cynhaliwyd Eisteddfod Cyd-Enwadol Pontargothi a'r Cylch ar y 29ain o fis Mawrth. Er y niferoedd isel a fu'n cystadlu yn yr adran cynradd ac uwchradd, cawsom eisteddfod yn llawn cystadlu o'r safon uchaf.

Daeth côr i gystadlu o dan 18 oed – Côr Eglwys Sant Ioan, Felingwm. Cawsom 3 Côr yn cystadlu dros 18 - Côr Capel Nantgaredig, Côr Eglwys Llanfihangel Uwch-Gwili a Chôr Eglwys Sant Ioan, Felingwm. Braf oedd gweld amryw o wahanol dalentau yn y gystadleuaeth 'Sgen Ti Dalent?. Cawsom gôr â chaneuon o fyd Disney, sgets, drama, deuawd a chôrau cymysg i'n diddanu. Eleni fe gawsom 2 gystadleuaeth newydd – Darllen emyn yn ôl dewis y beirniad a chystadleuaeth y Jôc orau i oed cynradd. Roedd y cystadleuthau yma yn boblogaidd iawn gyda'r bechgyn a merched.

Yn cadw trefn ar yr holl gystadleuwyr ac yn ein harwain ni'n hwylus trwy'r eisteddfod oedd Mrs Eleri James a Mrs Elonwy Phillips, Mr Emyr Williams a'r Parchedig Emyr Gwyn Evans.

Mrs Jean Lewis, Meidrim oedd yn beirniadu'r llefaru a'r llenyddiaeth. Mrs Sue Hughes, Peniel oedd yn beirniadu'r cerddoriaeth a Miss Sian Rees, Llanarthne a fu'n beirniadu'r gwaith llaw, arlunio a choginio.

Eleni, ein llywydd oedd Mrs Gwyneth Jones, Nantgaredig.

Diolch i bawb a oedd yng nghlwm â'r eisteddfod i'w gwneud hi'n eisteddfod arbennig eleni eto. Ymlaen a ni i 2020!

Os hoffech weld rhagor o luniau, ymunwch â ni ar ein tudalen Facebook – Eisteddfod Cyd-Enwadol Pontargothi.